# Cynilion dosbarth - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad

Golwg newydd ar siart gwobrwyo traddodiadol, trwy ennill pwyntiau a gwobrau fel dosbarth, gan annog dysgwyr i gynilo.

## Paratoi

Argraffwch y siart pwyntiau dosbarth neu gwnewch eich siart eich hun.

Dewiswch y pedair gwobr i'r dosbarth ar bob pwynt codi, e.e. amser chwarae, taith dosbarth.

## Adnoddau

Siart pwyntiau dosbarth

Gwobrau a ddewiswyd (os yw'n berthnasol)

**Y Gweithgaredd**

Nid oes unrhyw beth newydd am system pwyntiau gwobrwyo, ond mae gan y cynllun hwn y fantais ychwanegol o annog dysgwyr i gynilo, wrth weithio fel tîm.  Mae'r grid rhif hefyd yn annog dysgwyr i adnabod patrymau rhif.

Gwobrwyir pwyntiau i'r dysgwyr, yn ôl disgresiwn yr athro, am fod yn garedig, gweithio'n galed ac ati. Bob tro y caiff pwynt ei wobrwyo, mae'r dysgwr yn lliwio'r sgwâr gwyn nesaf.

Trwy sefydlu cyfleoedd codi ar 10 pwynt, 30 pwynt, 60 pwynt a 100 pwynt gyda gwobrau o werth cynyddol, mae'n rhaid i'r dosbarth benderfynu a ddylid defnyddio eu pwyntiau am wobr fach neu barhau i gynilo am wobr fwy.

Mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu a ddylid codi neu gynilo, fel dosbarth, gan ganiatáu cyfleoedd dysgu pellach, fel negodi, cydweithredu a hanfodion democratiaeth.

